**Sport Wales National Centre**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
Sophia Gardens | Gerddi Sophia
Cardiff | Caerdydd
CF11 9SW
0300 3003123
www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr: Brian Davies

Jenny Rathbone AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11.07.2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Mehefin mewn perthynas ag ymchwiliad y pwyllgor i'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd.

Fel rydych yn gwybod efallai, nid yw Chwaraeon Cymru yn gorff rheoleiddiol ac felly mae sefydliadau fel Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, awdurdodau lleol a chlybiau a sefydliadau unigol mewn gwell sefyllfa o ran gwneud gwahaniaeth uniongyrchol.

***Sector Chwaraeon Cynhwysol***

Mae eich llythyr yn nodi'n gywir bod gan chwaraeon ran bwysig i'w chwarae wrth atal trais ar sail rhywedd. Er bod ymyriadau gan wylwyr, lle maent yn ddiogel ac yn effeithiol, yn cael eu nodi fel rhai sy'n gweithredu o bosibl i newid agweddau a chredoau rhywedd negyddol, rydym yn credu bod rhaid i ni ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achos trais ar sail rhywedd. Felly, datblygiad a chynaliadwyedd system chwaraeon gynhwysol yw prif ffocws Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn cynnwys meithrin cyfleoedd chwaraeon diogel, cynhwysol, croesawgar a datblygiadol.

Mae amrywiaeth o ddulliau rydym yn eu defnyddio i hwyluso'r uchelgais hwn. Yn gyntaf, mae ein newidiadau diweddar i'r dull buddsoddi rydym yn ei weithredu wedi rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon wrth galon ein partneriaethau. Un agwedd bwysig ar hyn yw buddsoddi mewn chwaraeon lle mae merched a genethod yn cymryd rhan yn y chwaraeon hynny ac eisiau eu gwneud. Ein huchelgais yw sicrhau bod chwaraeon yn darparu ar gyfer y ddemograffeg honno ac felly'n sefydlu cyfleoedd sy'n sicrhau bod merched a genethod yn cael eu croesawu a'u cefnogi.

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Standard
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Safon
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
THE NATIONAL LOTTERY®

Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru

***Gwaith Partneriaeth***

Un llwybr rydym hefyd yn ei ddatblygu a all effeithio ar yr agenda o atal trais ar sail rhywedd yw ein gwaith partneriaeth. Mae ein partneriaeth barhaus â'r Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar Ferched mewn Chwaraeon, a'n buddsoddiad ynddo, wedi galluogi'r sefydliad uchel ei barch hwn yn rhyngwladol i gael ei gynnal yn y DU yn ystod yr ysgrifenyddiaeth bresennol, 2022-2026. Gweledigaeth yr IWG yw sefydlu diwylliant chwaraeon cynaliadwy sy'n seiliedig ar gydraddoldeb rhywedd ac sy'n galluogi ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad llawn gan ferched a genethod ym mhob agwedd ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae gan Chwaraeon Cymru nifer o bartneriaethau pwysig hefyd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod diogelu mewn chwaraeon yn flaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ein gwaith gyda'r NSPCC a'i Huned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (CPSU) yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Ann Craft.

Mae gan y CPSU, sy'n rhan o'r NSPCC ac yn cael ei gyllido gan Sport England, Sport Northern Ireland, Chwaraeon Cymru, UK Sport a The Football Association, ystod o adnoddau ac ymgyrchoedd, fel eu hymgyrchoedd Cadw eich plentyn yn ddiogel mewn chwaraeon a Listen Up, Speak Up. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar rymuso oedolion i greu amgylcheddau chwaraeon diogel.

Mae Ymddiriedolaeth Ann Craft hefyd yn darparu adnoddau a chefnogaeth ar gyfer chwaraeon diogel a chynhwysol. Fel rhan o'i Hymgyrch #DiwylliantDiogelachChwaraeonDiogelach ar 12fed Mehefin, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth seminar ar-lein am ddim am Ymyriadau Gwylwyr.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad drwy gyfrwng y partneriaethau hyn.

Yn olaf, hoffem hefyd wneud y pwyllgor yn ymwybodol o gyhoeddiad diweddar dogfen gan UNESCO, '*Tackling violence against women and girls in sport: highlights*'. Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyngor a her i ymarferyddion chwaraeon a llunwyr polisïau. Bydd Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gallwn gefnogi'n uniongyrchol, a'n partneriaid, i ddefnyddio adnoddau i wella'r amgylchedd chwaraeon i ferched a genethod.

Yn Gywir,

Brian Davies

Prif Weithredwr

Chwaraeon Cymru

Sport Wales is the trading name of the Sports Council for Wales | Chwaraeon Cymru yw enw masnachu Cyngor Chwaraeon Cymru